Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

# Llys Gwenffrwd

Cartref Preswyl Llys Gwenffrwd, Stryd Brynford, Treffynnon, CH8 7RA

01325713338

CARTREF PRESWYL LLYS GWENFFRWD STRYD BRYNFORD

**Dyddiad yr ymweliad arolygu / Dyddiadau'r ymweliadau arolygu:**

08/04/2025

## Gwybodaeth am y Gwasanaeth:

| | |
|---|---|
| Gweithredir gan: | Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Sir y Fflint |
| Math o Ofal: | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darpariaeth ar gyfer: | Cartref gofal i oedolion - â gofal personol |
| Lleoedd cofrestredig: | 30 |
| Prif iaith/ieithoedd: | Cymraeg a Saesneg |
| Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru: | Mae darparwr y gwasanaeth yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl. |

## Graddau:

| | |
|---|---|
| Llesiant | Da |
| Gofal a Chymorth | Da |
| Yr Amgylchedd | Da |
| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | Da |

## Crynodeb:

Mae Llys Gwenffrwd wedi'i leoli yn nhref farchnad Treffynnon. Gellir cerdded i ganol y dref yn hwylus, lle ceir amrywiaeth o siopau, caffis, banciau ac amwynderau lleol eraill. Mae'n wasanaeth cartrefol â digon o le, ac mae digon o ardaloedd cymunedol cyfforddus a gardd ddiogel ar gael.

Mae gan y bobl ddewis a rheolaeth dros benderfyniadau o ddydd i ddydd ac ymgynghorir â nhw er mwyn ael gwybod eu barn a'i hystyried. Caiff amrywiaeth eang o weithgareddau eu cynnig sy'n addas ar gyfer chwaethau unigol. Caiff cydberthnasau â ffrindiau a theulu eu cefnogi a chaiff ymwelwyr eu croesawu. Mae'r staff gofal yn cynnig gofal a chymorth sy'n diwallu anghenion y bobl ac yn cefnogi eu hannibyniaeth. Maent yn gwneud atgyfeiriadau prydlon at weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol pan fo angen. Mae'r cartref yn ddiogel ac mae cymhorthion arbenigol ar gael i ddiwallu anghenion y bobl. Mae'r rheolwr yn adnabod y bobl a'r staff yn dda ac mae ar gael ac yn hawdd mynd ato os bydd ganddynt unrhyw ofidion neu bryderon. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd er mwyn goruchwylio'r gwasanaeth a sicrhau ei fod yn rhedeg yn ddidrafferth. Mae'r gwasanaeth yn wasanaeth da, â rhai meysydd amlwg o ymarfer cadarnhaol, yn

enwedig o ran y ffordd y mae'n diwallu anghenion llesiant y bobl.

## Llesiant **Da**

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd, a chaiff eu llais ei glywed. Maent yn gwneud penderfyniadau o ddydd i ddydd fel ble yr hoffent dreulio eu hamser a sut maent yn treulio eu hamser. Caiff y bobl eu hannog i fynychu cyfarfodydd y cartref a chyfrannu eu barn ar sut caiff y gwasanaeth ei redeg. Gwelsom fod awgrymiadau ar gyfer y fwydlen a gweithgareddau wedi cael eu rhoi ar waith. Mae cydgysylltydd gweithgareddau yn trefnu amrywiaeth eang o weithgareddau sy'n addas ar gyfer diddordebau gwahanol. Mae'r rhain wedi cynnwys sesiynau cymorth cyntaf a gwersi Cymraeg, sy'n rhoi cyfle i'r bobl ddysgu sgiliau newydd. Mae'r bobl hefyd wedi cael cyfle i ddylunio eu llwy garu Gymreig eu hunain, a chafodd y llwy a enillodd y gystadleuaeth ei chreu a'i fframio. Mae'r gwasanaeth yn cynnal diwrnodau thema ar gyfer digwyddiadau arbennig, fel Sul y Mamau a diwrnod San Padrig. Dywedodd gweithiwr proffesiynol a oedd yn ymweld â'r gwasanaeth bod y gwasanaeth yn mynd '*above and beyond*" ar yr achlysuron hyn. Gwelsom fod amrywiaeth o opsiynau ar gael i'r bobl y tu hwnt i'r gweithgareddau wedi'u cynllunio. Yn ystod ein harolygiad, roedd y bobl yn chwarae dominos, yn garddio ac yn darllen papurau newydd. Caiff teithiau allan eu trefnu, a dywedodd y bobl wrthym eu bod wedi mwynhau mynd i gaffis, canolfannau garddio ac atyniadau lleol eraill. Ceir cysylltiadau â grwpiau lleol ac mae'r bobl yn mwynhau ymweliadau gan blant ysgol feithrin leol, triniaethau dwylo ac ewinedd â myfyrwyr coleg ac ymweliadau gan grwpiau ffydd lleol. Caiff y bobl eu hannog i gyd-gynhyrchu ac arwain gweithgareddau os bydd ganddynt sgiliau i'w cynnig. Mae hyn yn elfen o'r gwasanaeth sy'n arwain at ganlyniadau rhagorol i'r bobl sy'n cymryd rhan.

Mae'r staff gofal yn cefnogi'r bobl er mwyn sicrhau eu bod bob amser yn teimlo'n ddiogel. Maent yn cefnogi'r bobl i reoli risg ac i ddatrys problemau sy'n effeithio arnynt drwy ddefnyddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n sicrhau y caiff barn yr unigolyn ei hystyried yn llawn. Mae canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth ar gael i'r bobl yn eu hystafelloedd. Cafodd y canllaw ei ddylunio i ddiwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac mae'n cynnwys gwybodaeth o ansawdd uchel am y gwasanaeth ac amwynderau lleol, gan gynnwys sut i wneud cwyn. Dywedodd y bobl a'u perthnasau wrthym eu bod yn gwybod pwy i fynd ato os bydd ganddynt unrhyw bryderon ac maent yn hyderus i wneud hynny.

Mae'r staff gofal yn helpu'r bobl i feithrin a chynnal cydberthnasau â'r bobl maent yn byw gyda nhw ac i barchu pwysigrwydd cydberthnasau sy'n bodoli eisoes â theulu a ffrindiau. Mae croeso i ymwelwyr ar unrhyw adeg, ac mae ardaloedd tawel ar gael i gyfarfod ag ymwelwyr. Dywedodd un perthynas wrthym ei fod wir yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi ers i'w berthynas symud yno a dywedodd, "*I feel like one of the family.*" Gall y bobl gyfathrebu yn Gymraeg os byddant am wneud

hynny, a chaiff yr iaith Gymraeg ei hyrwyddo mewn ffordd weithredol. Caiff gwersi Cymraeg eu cynnal bob wythnos â mewnbwn gan breswylwyr sy'n siarad Cymraeg ac mae'r bobl, y staff ac aelodau o deuluoedd a ffrindiau yn eu mynychu. Roedd gorsaf radio Gymraeg i'w chlywed yn ystod ein harolygiad, ac mae'r gwasanaeth yn arddangos gair Cymraeg y dydd.

## Gofal a Chymorth — Da

Mae'r staff gofal yn sicrhau bod y bobl yn cael gofal a chymorth o ansawdd cyson dda. Caiff eu cynlluniau personol eu cynllunio gan roi ystyriaeth dda i ddymuniadau, credoau a gwerthoedd y bobl ac maent yn cyfleu'r hyn sy'n bwysig iddynt yn glir. Mae gan y bobl broffiliau un dudalen a chanllawiau byr sy'n rhoi darlun clir o'r person ac yn disgrifio'n effeithiol sut yr hoffai i'w ofal gael ei ddarparu. Ymgynghorir â'r bobl, eu perthnasau a gweithwyr proffesiynol wrth ddatblygu'r cynlluniau personol. Caiff y canlyniadau mae'r bobl am eu cyflawni eu nodi'n glir ac maent yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r cynlluniau personol yn seiliedig ar gryfderau ac yn disgrifio'r pethau y gall y bobl eu gwneud yn annibynnol a phryd y bydd angen o bosibl i'r staff gofal gynnig cymorth. Mae'r staff gofal yn hyrwyddo annibyniaeth a symudedd y bobl ac maent yn dilyn y cynlluniau personol hyn er mwyn sicrhau y caiff y bobl eu galluogi i fod mor annibynnol â phosibl. Cawsom adborth cyson gadarnhaol gan y bobl y gwnaethom siarad â nhw, a dywedodd un person wrthym, "*I couldn't wish for a better home*." Roedd y perthnasau hefyd yn canmol y gwasanaeth. Dywedodd un perthynas wrthym, "*I think it should be five star*."

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi gan staff gofal sy'n eu hadnabod yn dda. Caiff ffurflen i baru staff ei chwblhau ar gyfer pob unigolyn a chaiff y staff gofal eu paru yn unol â'u personoliaethau a'u diddordebau. Mae gan bob unigolyn ddau weithiwr allweddol penodedig, er mwyn darparu cysondeb gan staff sy'n eu hadnabod yn dda. Mae'r staff gofal yn cefnogi ac yn annog y bobl i gyflawni'r nodau sy'n bwysig iddynt, fel cynnal neu gynyddu eu symudedd. Pan fydd y bobl yn wynebu heriau, mae'r staff gofal yn dilyn proses gwneud penderfyniadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn sicrhau y caiff barn yr unigolion a'u perthnasau eu hystyried, ac y caiff datrysiadau creadigol eu canfod. Mae'r staff gofal yn ymateb i unrhyw newidiadau o ran anghenion y bobl. Gwelsom fod y staff gofal yn ymateb yn gyflym yn dilyn digwyddiadau, gan sicrhau bod risgiau yn cael eu hasesu a'u rheoli, a bod atgyfeiriadau yn cael eu gwneud at weithwyr iechyd proffesiynol a/neu weithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol. Dywedodd un gweithiwr gofal cymdeithasol proffesiynol y gwnaethom siarad ag ef fod y gwasanaeth yn ardderchog, gan sôn ei fod wedi gweld newid cadarnhaol cyflym yn achos person mae'n ei gefnogi ar ôl iddo symud i mewn. Mae'r staff gofal wedi cael hyfforddiant ar ofal diwedd oes ac mae rhai aelodau o'r staff yn hyrwyddwyr gofal lliniarol ar gyfer y gwasanaeth.

Mae'r staff gofal yn sicrhau bod y bobl yn cael eu cadw'n ddiogel rhag y risg o niwed a chamdriniaeth. Caiff asesiadau risg eu diweddaru ag unrhyw newidiadau a chânt eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r staff gofal yn sicrhau y rhoddir gwybod am unrhyw ddamweiniau neu ddigwyddiadau yn briodol ac mae systemau ar waith i adolygu'r rhain er mwyn lleihau'r risgiau y byddant yn digwydd eto. Caiff y broses o ddysgu o ddigwyddiadau a damweiniau ei chofnodi a'i rhannu â'r tîm o staff. Mae siartiau'r cofnodion rhoi meddyginiaeth yn darparu cofnod clir a chywir gan leihau unrhyw risgiau o wallau meddyginiaeth.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae'r gwasanaeth yn gartrefol ac yn gyfforddus ac mae digon o ardaloedd cymunedol a phreifat ar gael i'r bobl dreulio rhywfaint o amser tawel ar eu pen eu hunain neu gymdeithasu ag eraill. Gwelsom fod gan y bobl eu hoff ardaloedd i eistedd, ac mae rhai yn mwynhau eistedd gyda ffrindiau y maent wedi'u gwneud. Mae ardal glyd (‘*snug*’) yn yr ystafell fwyta ac mae peiriant coffi ar gael i'w defnyddio sy'n darparu ardal gyfforddus i gyfarfod ag ymwelwyr. Mae'r ardaloedd cymunedol yn gyfforddus ac yn cynnwys digon o le, mae'r décor yn gartrefol ac mae digon o olau. Roedd gwaith celf a chrefft y bobl yn cael ei arddangos, gan gynnwys lluniau wedi'u fframio ar y wal a sgwariau wedi'u gwau ar y byrddau yn yr ystafell fwyta. Gall y bobl bersonoli eu hystafelloedd a gwelsom eu bod wedi dod â ffotograffau ac wedi'u gosod mewn ffordd a oedd yn bodloni eu chwaethau unigol. Mae gardd ar gael ag ardaloedd eistedd a photiau plannu uchel. Gwelsom bobl yn defnyddio'r ardal hon yn ystod ein harolygiad, ac roedd rhai ohonynt wedi dod â phlanhigion ac wedi dechrau gwaith garddio'r gwanwyn.

Mae'r cyfarpar arbenigol sydd ei angen arnynt ar gael i'r bobl, ac mae'n cael ei wasanaethu'n rheolaidd i sicrhau ei fod yn gweithio'n effeithiol. Mae fframiau a chadeiriau cawod / bath cwbl hygyrch ar gael yn yr ystafelloedd ymolchi a'r toiledau. Mae canllawiau cydio ar gael ym mhob rhan o'r adeilad, er mwyn helpu'r rhai hynny a all symud yn annibynnol i symud o gwmpas y cartref. Mae arwyddion dwyieithog a darluniadol ar yr ystafelloedd cymunedol er mwyn helpu'r bobl i ganfod eu ffordd o amgylch yr adeilad.

Mae darparwr y gwasanaeth yn cynnal iechyd a diogelwch yr adeilad, gan sicrhau ei fod yn cydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau cenedlaethol cyfredol. Caiff gwiriadau nwy, trydan a dŵr eu cwblhau'n rheolaidd, a gwelsom dystysgrifau diogelwch nwy a thrydan. Mae arolygiad diogelwch tân wedi cael ei gwblhau gan y gwasanaeth tân ac mae'r darparwr yn rhoi'r argymhellion a wnaed ar waith. Caiff y cyfarpar diogelwch tân ei wirio i sicrhau ei fod yn gweithio'n iawn. Mae gan y bobl Gynlluniau Personol manwl ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng (PEEPs), fel bod gan y staff gofal gyfarwyddiadau clir pe byddai angen gwagio'r adeilad mewn argyfwng. Mae system i roi gwybod am waith atgyweirio ac mae rhaglen o waith cynnal a chadw parhaus ar waith. Mae'r gwasanaeth wedi cael sgôr hylendid bwyd o bump, sef y sgôr uchaf y gellir ei chyflawni, a gwelsom fod pob rhan o'r gwasanaeth yn lân ac yn daclus.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

**Da**

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi gan nifer priodol o staff sy'n meddu ar gymwysterau addas ac sydd wedi'u hyfforddi'n addas i ddarparu gofal a chymorth o ansawdd da. Caiff gwiriadau recriwtio trylwyr eu cynnal ar gyfer aelodau newydd o staff a gwelsom dystiolaeth o wiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a gwiriadau geirda. Caiff y staff gofal eu goruchwylio'n rheolaidd, a chânt arfarniad blynyddol sy'n ystyried unrhyw anghenion dysgu a datblygu. Maent yn cael hyfforddiant craidd a hyfforddiant arbenigol er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i ddiwallu anghenion y bobl. Gwelsom fod hyfforddiant craidd yn cael ei adnewyddu er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn gyfredol, a gwelsom dystiolaeth o hyfforddiant mewn meysydd arbenigol fel dementia ac awtistiaeth. Mae rhai aelodau o'r staff gofal wedi cael hyfforddiant i fod yn "hyrwyddwyr" ac i chwarae rhan arweiniol mewn meysydd penodol, fel symud a chodi a chario, gofal diwedd oes a rheoli heintiau. Gall yr hyrwyddwyr symud a chodi a chario ddarparu hyfforddiant mewnol i'r staff gofal, sy'n golygu y gellir cyflwyno'r cwrs hwn i fwy o'r staff. Mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth a hyfforddiant Cymraeg, sy'n eu helpu i gefnogi amrywiaeth o anghenion ac yn gwella eu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg.

Mae'r rheolwr yn sicrhau bod systemau rheoli ansawdd effeithiol ar waith er mwyn gallu darparu gwasanaeth o ansawdd da. Mae'r rheolwr yn cwblhau archwiliadau rheolaidd sy'n helpu i nodi unrhyw broblemau ac i sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i redeg yn ddidrafferth. Mae hefyd yn dadansoddi unrhyw gwympiadau i nodi patrymau a thueddiadau, gall hyn helpu i leihau'r risg o gwympiadau yn y dyfodol. Mae gan y rheolwr a'r dirprwy reolwr bolisi drws agored, sy'n golygu y gall y staff a'r bobl fynd atynt ar unrhyw adeg os bydd ganddynt unrhyw ofidion neu bryderon. Gwelsom fod y rheolwr yn weladwy yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad ac yn treulio amser yn siarad â'r bobl. Mae hefyd yn sicrhau bod y staff yn gwybod eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae gan y staff gofal broffil un dudalen fel bod y rheolwr yn ymwybodol o'u hanghenion ac yn gwybod sut i'w paru orau â'r bobl y maent yn eu cefnogi. Gwelsom lythyrau diolch blynyddol roedd y rheolwr wedi'u hanfon at y staff. Mae darparwr y gwasanaeth wedi cwblhau gwaith sylweddol i wella ansawdd y gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n cael ei ddarparu i'r bobl, ac mae wedi ennill gwobr am hyn, gan gyrraedd y lefel cyflawniad uchaf.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn darparu adroddiad bob tri mis o'i ymweliadau. Mae'n sicrhau ei fod yn siarad â'r bobl a'r staff i gael eu barn. Er bod yr adborth yn gadarnhaol ar y cyfan, caiff unrhyw faterion a godir yn ystod y sgyrsiau hyn eu trafod â'r rheolwr. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn arolygu'r safle ac yn adolygu detholiad o gofnodion yn ystod ei ymweliadau er mwyn sicrhau bod gwasanaeth o ansawdd da yn cael ei ddarparu. Caiff unrhyw gamau gweithredu eu cofnodi a chânt eu hystyried yn yr ymweliad nesaf. Mae hefyd yn llunio adroddiad o ansawdd y gofal bob chwe mis. Mae'n ystyried adborth o holiaduron ansawdd ac yn dadansoddi beth sy'n gweithio'n dda ac unrhyw feysydd i'w gwella'n barhaus.

# Meysydd i'w gwella a nodwyd

Lle byddwn yn nodi **Meysydd i'w Gwella** ond na fyddwn wedi canfod bod y bobl yn wynebu risg uniongyrchol neu sylweddol, byddwn yn eu trafod â'r darparwr. Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu a byddwn yn ystyried y mater eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

Lle byddwn yn canfod bod yn **rhaid gwella'r** canlyniadau i'r bobl **yn sylweddol** a/neu fod risg i lesiant y bobl, byddwn yn nodi meysydd **Gweithredu â Blaenoriaeth**. O dan yr amgylchiadau hyn, byddwn yn cyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth i'r Darparwr, a bydd yn rhaid iddo gymryd camau ar unwaith i wneud gwelliannau. Byddwn yn cynnal arolygiad arall ymhen chwe mis er mwyn cadarnhau bod gwelliannau wedi'u gwneud a bod y canlyniadau i'r bobl wedi gwella.

This report is also available in English

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2025.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*